**Cofnodion Cyfarfod Gweithgor y Ganolfan Dreftadaeth**

**25 Mehefin 2025, Hwb Rhuddlan**

## Yn bresennol

Y Cynghorydd Mike Kermode
Y Cynghorydd Val Simmons
Steve Wilson – Clerc y Dref
Morgan Ditchburn – Clerc y Dref Cynorthwyol
Matthew Baker Llyfrgelloedd CSDd
Richard Polen – Cymdeithas Hanes Rhuddlan

**1. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Mike Elgin, y Cynghorydd Jackie Burnham, Deborah Owen

**2. Datgan buddiant –** Dim

**3. Diweddariad ar Gyllid yn dilyn ymweliad â'r ffair gyllido**

**a. Opsiynau ar gyfer ariannu adeilad newydd**

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r cyfarfod diweddar gyda'r Gronfa Dreftadaeth a'r Gronfa Gymunedol yn y Rhyl. Rhoddodd y Cynghorydd Mike Kermode, Richard Polen, a Morgan Ditchburn ddiweddariad i'r grŵp ar y trafodaethau. Mae'r Gronfa Dreftadaeth wedi diweddaru ei pholisïau ac mae'n canolbwyntio ar gadw asedau yn hytrach na chodi adeiladau newydd. Er mwyn cymeradwyo adeilad newydd, byddai'n rhaid cyflwyno achos cryf a dangos nad oes dewisiadau eraill ar gael.

**b. Opsiynau ariannu Caffael Asedau**

Roedd y Gronfa Dreftadaeth yn ffafrio caffael asedau yn lle codi adeilad newydd. Trafodwyd y mater ond nid oes unrhyw ddewis i ddilyn y llwybr hwn gan nad oes eiddo treftadaeth ar gael i'w prynu.

Penderfynwyd mai adeilad newydd oedd yr opsiwn gorau i'r dyfodol.

Bydd Morgan yn trefnu cyfarfod gyda'r Gronfa Dreftadaeth i drafod y camau nesaf.

**4. Diweddariad am Gyfeillion y Llyfrgell**

Penodwyd y Cynghorydd Val Simmons yn Gadeirydd y grŵp, a Richard Polen yn Drysorydd. Maent yn chwilio am ysgrifennydd ar hyn o bryd. Bydd ganddynt fwrdd yn ystod y Picnic yn y Parc i hyrwyddo'r grŵp a chynnal rhai gweithgareddau. Mae digwyddiadau wedi'u trefnu hefyd, un ar gyfer Calan Gaeaf, a'r llall ar gyfer y Nadolig. Bydd y grŵp hefyd yn gweithio gyda grwpiau eraill sy'n defnyddio'r llyfrgell i'w cefnogi.

Bydd angen logo ar y grŵp at ddibenion hyrwyddo. Bydd Morgan yn creu rhai logos er mwyn i'r grŵp gael golwg arnynt a gweld beth fyddai'r aelodau yn ei hoffi.

**4. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Anfonir y manylion.